ARCHWILIAD Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eyri	Arolygwr / Inspector: **RICHARD DUGGAN BSc (Hons) DipTP MRTPI** Swyddog Rhaglen / Programme Officer: **RHIAN RANDALL**
Eryri Local Development Plan Review **EXAMINATION**	☎ 01766 772203 ✉swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru Swyddfa'r Parc Cenedlaethol / National Park Office, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6LF

Sesiwn Gwrandawiad 2:

Pennod 6 Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy - Economi/ Cyflogaeth, Twristiaeth a Manwerthu

9.30yb Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2018

Agenda Materion a Phethau sy'n Codi

1. **Cyflwyniad**
2. **Materion Gweithdrefnol**
3. **Economi Wledig Gynaliadwy (Polisi Strategol H)**
   a. Beth yw canlyniadau disgwyliedig y diwygiadau i Bolisi Strategol H?

   b. A yw dull cyffredinol y Cynllun Diwygiedig o ran twf cyflogaeth yn gydnaws â'r lefelau datblygiad preswyl arfaethedig dros gyfnod y Cynllun?

4. **Darpariaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant Newydd (Polisi Datblygu 19)**

   a. Yn absenoldeb unrhyw ddyraniadau tir cyflogaeth newydd ar raddfa fach yn y Cynllun Diwygiedig, a fydd y ddibyniaeth barhaus ar ailddefnyddio ac/ neu ehangu tir ac adeiladau a ddyranwyd eisoes neu ddatblygiadau newydd ar safleoedd llai heb eu dyrannu o fewn neu gerllaw trefi neu bentrefi yn darparu tir/ adeiladau cyflogaeth digonol i ddiwallu anghenion ardal y Cynllun?

   b. A yw'r Polisi yn rhy gyfyngol, yn enwedig o ran y potensial am gyfleoedd datblygu economaidd adeiladu newydd y tu allan i aneddiadau, megis mentrau gwledig ar raddfa fach?

   c. A oes gorddibyniaeth ar argaeledd tir a safleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol i ddiwallu'r angen lleol a nodwyd ar gyfer datblygu cyflogaeth a hyfforddiant?

5. Parth Menter Eryri

a. Beth yw'r amserlen ar gyfer y cyflenwad a ragwelir, ac a fu unrhyw drafodaethau gyda darpar fuddsoddwyr a datblygwyr ar y naill safle neu'r llall?

b. Pa oblygiadau fyddai gan y Parth Menter i strategaethau datblygu awdurdodau cyfagos, ac i'r gwrthwyneb?

c. A yw'r polisi yn ddigon hyblyg o ran y math o ddatblygiad y gellid ei gynnwys ar y safle, o ran y defnydd, graddfa a dyluniad adeiladau? Sut fydd y Cynllun yn delio â chynigion ar gyfer datblygiad mawr ar y safle?

d. A oes unrhyw gyfyngiadau seilwaith yn y naill neu'r llall o'r safleoedd a allai effeithio ar gyflenwi a hyfywedd?

e. Beth yw'r goblygiadau llifogydd ar ddyraniad tir ym Maes Awyr Llanbedr? Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu oherwydd bod yr Asesiad Canlyniad Llifogydd yn cadarnhau nad yw rhannau o'r safle yn addas i'w datblygu.

f. A yw ffiniau dyraniad y ddau safle wedi eu ffurfio'n gywir?

6. Twristiaeth a Hamdden

a. Mae'r cynllun diwygiedig yn cyflwyno testun sy'n cyfeirio at bwysigrwydd twristiaeth antur ac eco twristiaeth i'r Parc Cenedlaethol. A yw'r Cynllun, trwy Bolisi Strategol I a Pholisïau Datblygu 21 a 28, yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ystyried cynigion am gyfleusterau neu lety twristiaeth a hamdden newydd a gwell?

b. A yw'r polisïau yn y Cynllun, gan gynnwys y Polisïau 28 a 29 newydd, yn sicrhau'r cydbwysedd priodol o ddarpariaeth ac ataliad mewn perthynas â datblygiadau twristiaeth a hamdden presennol ac arfaethedig, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd datblygu mawr posibl?

c. A fydd Gwarchodfa Awyr Dywyll Eryri yn effeithio ar allu'r atyniadau twristiaeth a llety presennol i ehangu a gwella cyfleusterau?

d. Mae'r testun ychwanegol ym Mharagraff 6.34 yn cyfeirio at leoliad datblygiad twristiaeth a hamdden o fewn cefn gwlad agored a'r effaith bosibl a gaiff ar y dirwedd. Sut gaiff hyn ei reoli a'i asesu ac a ddylai hyn gael ei gynnwys o fewn Polisi?

e. A yw'r frawddeg gyntaf ym Mholisi 21 yn darllen yn gywir - "O fewn y Parc Cenedlaethol, bydd darpariaeth atyniadau twristiaeth presennol yn cael ei diogelu ….

f. Polisïau Datblygu 22 a 23: A fydd y testun ychwanegol ym mharagraff 6.40 a'r polisi yn cael effaith andwyol ar hyfywedd busnes a nifer y twristiaid i'r ardal oherwydd anallu i gynyddu'r niferoedd carafanau sefydlog ar y safle, hyd yn oed os oes gwelliant cyffredinol i'r safle?

g. Paragraff 6.37, Ymddengys bod Polisi Datblygu 28 yn annog ac yn gwrth-annog llety adeiladu newydd. A yw'r newidiadau a gyflwynwyd gan y paragraffau ategol a'r Polisi 28 newydd yn glir o ran darparu llety â gwasanaeth adeiladu newydd?

h. Sut fydd cynigion ar gyfer llety â gwasanaeth newydd y tu allan i'r hierarchaeth aneddiadau a enwir yn cael eu hasesu - er enghraifft, ar gynlluniau arallgyfeirio amaethyddol?

i. Mae'r CDLl yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth a hamdden i'r economi. A yw Polisi 29 yn rhy gyfyngol ac yn atal cyfleoedd i ddatblygu cyfleuster a allai fod o fudd i'r economi?

j. A fu asesiad digonol o'r galw a'r gofynion am lety gwyliau amgen?

k. A fydd Polisi 29 yn arwain at 'ddull blanced/ cyffredinol' a fydd yn atal ystyried pob cynnig yn ôl ei rinweddau arbennig? A ddylid cael gwahaniaethau rhwng gwahanol ardaloedd y Parc Cenedlaethol?

7. Manwerthu (Polisi Datblygu 24)

a. A yw'r pellter o 300m a gyflwynir gan yr adolygiad arfaethedig yn unol â pholisi cenedlaethol ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn? A yw'r term 'parth clustogi' yn briodol yn y cyd-destun hwn?

b. A yw'r polisi'n glir ar gynigion ar gyfer newid defnydd siopau/ unedau gwag i ddefnydd preswyl mewn aneddiadau eraill nad ydynt wedi'u rhestru o fewn y polisi, yn enwedig tai fforddiadwy, lle profwyd angen lleol?

8. A yw'r Cynllun yn parhau i gynnwys mecanweithiau monitro ac adolygu cadarn a fyddai'n galluogi strategaethau a pholisïau economaidd/cyflogaeth, twristiaeth a manwerthu i ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid?

9. **Yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio Polisi Cynllunio Cymru (PCC). Beth yw goblygiadau, os o gwbl, y PCC diwygiedig arfaethedig ar yr Economi Wledig (Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth) fel y nodir yn y CDLl Eryri Diwygiedig?**

10. **Unrhyw fater arall.**